OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 3274 (Cy.312)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Sir Gwynedd (Newidiadau Etholiadol) 2002

Wedi'i wneud - - 6 Rhagfyr 2002

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)

Yn unol ag adrannau 58(1) a 64 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) cyflwynodd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru gynigion ym Medi 1998 ar gyfer trefniadau etholiadol y dyfodol ar gyfer Sir Gwynedd. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi cytuno â'r cynigion, yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 58(2) a 67(4) a (5) o'r Ddeddf.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Gwynedd (Newidiadau Etholiadol) 2002.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym—

(a) at ddibenion achosion, sy'n arwain at unrhyw etholiad neu'n ymwneud ag unrhyw etholiad sydd i'w gynnal ar 6 Mai 2004, ar 9 Hydref 2003, a

(b) at bob diben arall, ar 6 Mai 2004.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "adran etholiadol" ("*electoral division*") yw un o adrannau etholiadol Sir Gwynedd fel y'i sefydlwyd gan Orchymyn Trefniadau Etholiadol Sir Gaernarfon a Sir Feirionnydd 1994(**2**);

ystyr "y Ddeddf ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

Adrannau Etholiadol

2.—(1) Mae adrannau etholiadol presennol Sir Gwynedd a bennir yn yr Atodlen i Orchymyn Trefniadau Etholiadol Sir Gwynedd 1994 wedi'u diddymu.

(2) At ddibenion ethol cynghorwyr ar gyfer Sir Gwynedd, rhennir y Sir honno yn 71 o adrannau etholiadol yn dwyn yr enwau a bennir yng ngholofn (1) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn, a bydd pob adran etholiadol o'r fath yn ffurfio'r ardal a bennir yng ngholofn (2) o'r Atodlen honNo.

(**1**) 1972 p.70.

(**2**) Mae enw'r Sir wedi'i newid o Sir Gaernarfon a Sir Feirionnydd i Wynedd yn unol ag adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Cafodd y Gorchymyn hwn ei wneud ar 19 Rhagfyr 1994 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref.

(3) Y nifer a bennir mewn perthynas â'r adran yng ngholofn (3) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn fydd y nifer o gynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer pob adran etholiadol o'r fath.

Y Gofrestr o Etholwyr Llywodraeth Leol

3. Rhaid i'r swyddog cofrestru wneud unrhyw ad-drefniadau neu addasiadau i'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol sy'n angenrheidiol am fod y Gorchymyn hwn yn dod i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

E. Hart
Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol, Cyllid a Chymunedau

6 Rhagfyr 2002

YR ATODLEN

Erthygl 2

Enwau, ardaloedd a'r nifer o gynghorwyr ar gyfer adrannau etholiadol Sir Gwynedd

(1) Enw'r Adran Etholiadol	(2) Ardal yr Adran Etholiadol	(3) Y Nifer o Gynghorwyr
Aberdaron	Cymuned Aberdaron	1
Aberdyfi	Cymunedau Aberdyfi a Phennal	1
Abererch	Wardiau Abererch a'r Ffôr yng Nghymuned Llannor	1
Abermaw	Cymuned Abermo	1
Aber-soch	Ward Aber-soch Cymuned Llanengan	1
Arllechwedd	Cymuned Aber a Llanllechid a ward Llandygái Cymuned Llandygái	1
Y Bala	Cymuned y Bala	1
Bethel	Ward Bethel Cymuned Llanddeiniolen	1
Y Bontnewydd	Cymuned y Bontnewydd	1
Botwnnog	Cymuned Botwnnog	1
Bowydd a'r Rhiw	Wardiau Bowydd a'r Rhiw a ward Tanygrisiau Cymuned Ffestiniog	1
Brithdir a Llanfachreth/Y Ganllwyd/ Llanelltud	Cymunedau Brithdir a Llanfachreth, Y Ganllwyd a Llanelltud	1
Bryn-crug/ Llanfihangel	Cymunedau Bryn-crug a Llanfihangel-y-Pennant	1
Cadnant	Ward y Dwyrain yng Nghymuned Caernarfon	1
Clynnog	Cymuned Clynnog	1
Corris/Mawddwy	Cymunedau Corris a Mawddwy	1
Criccieth	Cymuned Criccieth	1
Cwm-y-glo	Wardiau Ceunant a Chwm-y-glo Cymuned Llanrug	1
Deiniol	Ward Deiniol Cymuned Bangor	1
Deiniolen	Wardiau Clwt-y-bont, Deiniolen a Dinorwig Cymuned Llanddeiniolen	1

(1) **Enw'r Adran Etholiadol**	(2) **Ardal yr Adran Etholiadol**	(3) **Y Nifer o Gynghorwyr**
Dewi	Ward Dewi Cymuned Bangor	1
Diffwys a Maenofferen	Ward Diffwys a Maenofferen Cymuned Ffestiniog	1
Dolbenmaen	Wardiau Bryncir, Y Garn, Golan, Penmorfa a Threflys Cymuned Dolbenmaen	1
Gogledd Dolgellau	Ward Ogleddol a Ward Wledig Cymuned Dolgellau	1
De Dolgellau	Ward Ddeheuol Cymuned Dolgellau	1
Dyffryn Ardudwy	Cymuned Dyffryn Ardudwy	1
Efailnewydd/Buan	Cymuned Buan a wardiau Efailnewydd a Phentre-uchaf Cymuned Llannor	1
Garth	Ward Garth Cymuned Bangor	1
Gerlan	Wardiau Gerlan a Rachub Cymuned Bethesda	1
Glyder	Ward Glyder Cymuned Bangor	1
Y Groeslon	Wardiau Dinas Dinlle a'r Groeslon yng Nghymuned Llandwrog	1
Harlech	Cymunedau Harlech a Thalsarnau	1
Hendre	Ward Hendre Cymuned Bangor	1
Hirael	Ward Hirael Cymuned Bangor	1
Llanaelhaearn	Cymunedau Llanaelhaearn a Phistyll	1
Llanbedr	Cymunedau Llanbedr a Llanfair	1
Llanbedrog	Cymuned Llanbedrog	1
Llanberis	Cymuned Llanberis	1
Llandderfel	Cymunedau Llandderfel a Llanycil	1
Llanengan	Wardiau Llanengan a Llangïan Cymuned Llanengan	1
Llangelynnin	Cymunedau Arthog, Llanegryn a Llangelynnin	1
Llanllyfni	Wardiau Llanllyfni, Nantlle a Nebo Cymuned Llanllyfni	1